

**Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Amnewid  
Cynllun Datblygu Lleol**

**Pecyn Gwybodaeth i'r Gymuned**

**Mawrth 2017**



**Planning Aid Wales**  
Community engagement in planning



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**  

---

**Pembrokeshire Coast  
National Park**

## Rhagymadrodd

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn y broses o ailosod ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLI). Bellach mae'r awdurdod yn gallu nodi ardaloedd o newid posibl ac mae safleoedd yn dod i'r amlwg i'w datblygu neu eu gwarchod.

Mae APCAP yn ymrwymedig i ymgysylltu â'u cymunedau lleol yn y broses hon.

Yn ddiweddar, cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) chwe gweithdy hyfforddiant am ddim i Gyngorau Cymuned a Thref ar ran APCAP. Amcan y gweithdai oedd esbonio proses paratoi CDLI gyda ffocws arbennig ar y Strategaeth a Ffeiffrir a Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol. Hefyd roedd y gweithdai yn rhoi cyngor ar sut y gallai cymunedau lleol gymryd rhan er y gorau.

Death nifer o faterion i ddelio â hwy i'r amlwg yn y gweithdai, yn ogystal â ble byddai mwy o wybodaeth yn ddefnyddiol. Mewn ymateb i hyn, bu CCC yn gweithio ar y cyd gydag APCAP a chynhyrchu'r pecyn gwybodaeth hwn i helpu cymunedau lleol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r broses paratoi CDLI.

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn cynnwys manylion o amserlen amnewid y CDLI ac yn amlinellu sut gellir asesu safleoedd posibl. Mae hefyd yn darparu nifer o gysylltiadau i ddogfennau defnyddiol, megis y Papurau Cefndirol sy'n seiliedig ar bwnc sef y sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi'r CDLI.

Fe'i anfonir at bob Cyngor Cymuned a Thref sydd o fewn neu'n rhannol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol. Amcan y cynnwys yw helpu pobl i ymgysylltu'n fwy effeithiol â pharatoi'r CDLI, sydd yn ein tyb ni, yn broses bwysig i gymunedau lleol.

Gobeithia'r Awdurdod bydd y Cyngorau Cymuned a Thref yn ceisio sicrhau bod eu cymunedau lleol yn cael gwybod am, ac yn ymgysylltu â phroses y CDLI. ***Gall Cyngorau Cymuned a Thref ddarparu ffynhonnell o wybodaeth ganolog ar gyfer eu cymunedau lleol, helpu i godi ymwybyddiaeth o broses y CDLI a throsglwyddo safbwyntiau a sylwadau lleol yn ôl i'r Awdurdod.***

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad Gweithdy	3
2. Proses Amnewid Cynllun Datblygu Lleol	4
3. Fersiwn ddrafft y Strategaeth a Ffefrir	6
4. Sut asesir safleoedd posibl?	7
5. Tystiolaeth a baratowyd i gefnogi Amnewid y Cynllun Datblygu Lleol	9
6. Manylion cyswllt y Tîm Cynllunio Polisi	11

## **1. Cyflwyniad Gweithdy**

Gellir gweld y cyflwyniad gweithdy yma:

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Dev%20Plans/LDP2/community%20engagement/FINAL%20Presentation%20for%20Feb%20'17%20PCNPA%20CTC%20training%20workshops%2013th%20Feb%20'17.pdf>

## 2. Proses Amnewid Cynllun Datblygu Lleol

### Amserlen amnewid CDLI

Mae'r golofn gyntaf yn y tabl isod yn nodi cam paratoi'r Cynllun.

Mae'r ail golofn yn nodi pa gamau gweithredu a gymerir yn y cam hwnnw.

Mae'r drydedd golofn yn gosod y dyddiadau er mwyn cyflawni'r camau gweithredu hyn.

Cam	Camau Gweithredu	Dyddiad
	<b>Gweithdai Tref a Chymuned</b>	Ebrill 2016
<b>Adroddiad Adolygu</b>	Cytuno ar ba rannau o'r cynllun sydd angen eu hadolygu	Erbyn Mehefin 2016
<b>Cytundeb Cyflawni</b>	Cytuno ar amserlen proses adolygu	Erbyn Mehefin 2016
<b>Safleoedd Ymgeisiol</b>	Cytuno ar fethodoleg ymgysylltiad (i randdalwyr a chymunedau lleol)	Erbyn Awst 2016
	Gwahodd cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol	Erbyn diwedd Tachwedd 2016
	<b>Gweithdai Tref a Chymuned</b>	Chwefror 2017
<b>Strategaeth a Ffefrir</b>	Cytuno ar fersiwn ddrafft y strategaeth a ffefrir, diagram allweddol a rhestr Safleoedd Ymgeisiol i ymgynghori arnynt	Erbyn Mai 2017
	Ymgynghoriad Cyhoeddus	8 wythnos
<b>Cynllun Adnau</b>	Cytuno ar fapiau a pholisiau manwl drafft	Erbyn Ebrill 2018
	Ymgynghoriad Cynhoeddus	8 wythnos
<b>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru</b>	Cyflwyno'r Cynllun a dogfennau cefnogol	Rhagfyr 2018

Cam	Camau Gweithredu	Dyddiad
<b>Archwiliad o'r CDLI gan Arolygydd</b>	Sesiynau Gwranddo	Gwanwyn 2019
<b>Mabwysiadu CDLI</b>	Amnewid i gynnwys argymhellion gorfodol yr Arolygydd.	Blwyddyn Newydd 2020

### **Cytundeb Cyflawni**

Mae'r Cytundeb Cyflawni yn gosod yr amserlen a gynigir ar gyfer amnewid y CDLI ac yn amlinellu sut a phryd bydd cymunedau'n cymryd rhan ym mhob cam.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar y Cytundeb Cyflawni ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2016.

Gellir gweld Cynllun Ymrwymiad y Gymuned (*The Community Involvement Scheme neu CIS*) ar dudalennau 18-24 y ddogfen, gyda chyfeiriad penodol at Gyngorau Cymuned a Thref ar dudalen 21.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=768>

### **Adroddiad Monitro Blynyddol**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn (2016) yn amlinellu i ba raddau y gweithredir ar bolisiau'r CDLI yn llwyddiannus. Gellir gweld Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ar y dudalen hon.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=536>

### **3. Fersiwn Ddrafft y Strategaeth a Ffefrir**

Bydd fersiwn ddrafft y Strategaeth a Ffefrir yn gosod y lefelau cyfan a'r ardaloedd twf o fewn ardal y CDLI ac amlinellu'r polisiau strategol ar gyfer y Parc Cenedlaethol (mewn melyn).

Bydd hefyd yn cynnwys polisiau manwl (mewn glas) a gedwir fel arfer ar gyfer y cam Adnau gan fod yr Awdurdod yn adolygu cynllun cyfredol.

Ni fydd yn diffinio ffiniau penodol i ardaloedd datblygu arfaethedig na darparu dosraniad safleoedd penodol.

Bydd hefyd yn cynnwys Mynegai Safle Ymgeisiol sy'n dangos y safleoedd a gyflwynwyd i'w hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â safbwynt yr Awdurdod ar gydnawsedd y safle gyda'r Strategaeth a Ffefrir.

Disgwylir y bydd fersiwn ddrafft y Strategaeth a Ffefrir yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyr ym mis Mai 2017. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para am wyth wythnos.

Mae crynodeb o fersiwn ddrafft y Strategaeth a Ffefrir ar gael i'w gweld trwy'r ddolen isod:

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Dev%20Plans/LDP2/community%20engagement/Preferred%20Strategy%20Summary%20-%20Accessible%20DocumentWel.pdf>

## 4. Sut yr asesir safleoedd posibl?

Yn dilyn, ceir amlinellid o'r ystyriaethau cynllunio sydd yn rhaid eu hystyried pan yn dosrannu safleoedd i'w datblygu:

### Ystyriaethau Cyffredinol

- **Bwriad Tirfeddiannwr** – parodrwydd i ddatblygu neu ryddhau tir, amserlenni.
- **Effaith ar y Tirwedd** – fyddai datblygu'r safle yn gwarchod neu wella cymeriad y pentref / strydlun / cyd-destun cyfagos? Lliniaru? Awdurdod Parc Cenedlaethol i ystyried.
- **Amwynder Cyfagos** – preifatrwydd, golau, sŵn? Awdurdod Parc Cenedlaethol i ystyried.
- **Sensitifrwydd Ecolegol** – beth yw gwerth ecolegol cyffredol y safle? Ydy e'n haeddu gwarchodaeth? A oes unrhyw rywogaethau neu gynefinoedd a warchodir o fewn neu yn agos i'r safle? Awdurdod Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru i ystyried.
- **Cyfyngiadau Amgylcheddol Eraill** – ydy'r safle o fewn neu ydy e'n debygol o niweidio dynodiad megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SAC) ac ati? Cyfoeth Naturiol Cymru i gynghori'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- **Perygl Llifogydd** – fydd y datblygiad yn destun i neu a fydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd? Awdurdod Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru i ystyried.
- **Gallu Carffosiaeth / Cyflenwad Dŵr** – gallu'r system garffosiaeth bresennol i ddelio â mwy o lif – angen uwchraddio? A ellir cyflenwi dŵr i'r datblygiad? Dŵr Cymru i gynghori'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- **Mynediad Cerbydau / Cerddwyr a gallu'r Priffyrdd** – A all y rhwydwaith ffyrdd ymdopi â maint a'r math o drafnidiaeth? A fydd gwelliannau ffyrdd yn ofynnol i gael mynediad i'r safle? Diogelwch gyrrwyr a cherddwyr. Awdurdod Priffyrdd (Cyngor Sirol Sir Benfro) neu Asiantaeth Cefnffordd i gynghori'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- **Amgylchedd Hanesyddol** – Effaith ar unrhyw safle neu Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Gwarchod, Henebion Rhestredig cyfagos. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Cadw i gynghori'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.



## Tai

- **Ymarferoldeb Tai Fforddiadwy** – y nifer o unedau tai fforddiadwy ar y safle a ellid eu disgwyl yn seiliedig ar y nifer o unedau tai, costau adeiladu, costau annormal.

## Cyfleusterau Cymunedol (yn cynnwys meysydd chwarae a rhandiroedd)

- **Lleoliad** – Ydy'r cyfleuster mewn lle cyfleus ar gyfer y bobl sydd fwyaf tebygol o'i ddefnyddio?
- **Costau** – Pwy fydd yn ei gyllido / cynnal?

## Cyflogaeth

- **Math o fusnes** – pa fath o fusnes a fwriedir – a fydd yn effeithio ar eiddo cyfagos?
- **Costau** – Pwy fydd yn ei gyllido?

## Yr hyn sydd ei angen arnom gan Gynigwyr

- **Pryd a sut maent yn bwriadu cynnig y safle** i'w ddatblygu unwaith y bydd wedi ei ddewis?
- **Ffurflen Barod Ymarferoldeb Ariannol wedi ei Chwblhau (Tai)** – yn rhoi manylion costau prynu tir, costau adeiladu, unrhyw gostau annormal (efallai bydd ffyrdd mynediad hir neu pellter hir i'r system garffosiaeth, er enghraifft), nifer o dai (neu adeiladau eraill), maint a math yr unedau (e.e. tai marchnad / fforddiadwy).
- **Cynllun** – Efallai bydd angen manylion arnom hefyd o sut bydd y cynnig yn ffitio / edrych ar y safle.

## 5. Tystiolaeth a baratowyd i gefnogi Amnewid y Cynllun Datblygu Lleol

### Papurau Cefndir

Y cam cyntaf mewn paratoi cynllun amnewid yw adolygu'r wybodaeth gyfredol o'r sylfaen dystiolaeth ac yna casglu tystiolaeth bellach yn ôl yr angen. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cynllun datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth go iawn er mwyn sicrhau bod y cynllun yn 'gadarn'.

Mae papurau cefndir yn cyflwyno amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys cynlluniau a chynigion gan sefydliadau eraill. Cânt eu diweddarau ac ychwanegir atynt trwy gydol cyfnod paratoi'r Cynllun.

Paratowyd papurau cefndir ar amrediad o bynciau (gweler y tabl isod):

Papurau Cefndir A-Ff	Papurau Cefndir M-Rh
<ul style="list-style-type: none"> <li>Papur Cefndir Bioamrywiaeth</li> <li>Astudiaeth Carafanau a Gwersylla</li> <li>Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol</li> <li>Papur Cefndir Cyflogaeth</li> <li>Papur Cefndir Ffynonellau Carbon Diocsid</li> <li>Papur Cefndir Asesu Gofod Agored</li> <li>Astudiaeth Tai Fforddiadwy</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Papur Cefndir Maint a Lleoliad Tyfiant</li> <li>Papur Cefndir Manwerthu</li> <li>Papur Cefndir Mwynau</li> <li>Papur Cefndir Mwynhad</li> <li>Papur Cefndir Newid Hinsawdd</li> <li>Papur Cefndir Nodweddion Arbennig</li> <li>Cynllunio Mwynau Rhanbarthol</li> <li>Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol</li> </ul>
Papurau Cefndir G-LI	Papurau Cefndir S-Y
<ul style="list-style-type: none"> <li>Papur Cefndir Gwastraff</li> <li>Papur Cefndir Gweledigaeth ac Amcanion</li> <li>Papur Cefndir yr Iaith Gymraeg</li> <li>Papur Cefndir Lletemau Glas</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Papur Cefndir Sylfaen Dystiolaeth</li> <li>Papur Cefndir Trafnidiaeth Gynaliadwy</li> <li>Papur Cefndir Ymgynghoriad Cymunedol</li> <li>Asesiad Ynni Adnewyddadwy</li> <li>Cynllun Gofodol Cymru</li> <li>Papur Cefndir Tai</li> </ul>

Mae'r holl papurau cefndir ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod, gan ddilyn y ddolen isod. Maent wedi eu rhoi mewn grwpiau yn ôl yr wyddor (A-Ff, G-LI, M-Rh a S-Y) a gellir cael gafael arnynt tryw'r dolenni ar ochr chwith tudalen y wefan.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=754>

## **Papur Cefnidr – Astudiaeth Tai Fforddiadwy (Rhagfyr 2016)**

Pan yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol, mae'n ofynnol bod awdurdod cynllunio lleol yn gosod targedau i gael tai fforddiadwy. Mae'r ddogfen hon yn asesu ymarferoldeb economaidd targedau tai fforddiadwy posibl o fewn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Dev%20Plans/LDP2/background%20papers/FINAL%20PCNPA%20Affordable%20Housing%20Study%20Preferred%20Strategy%20-%20December%202016.pdf>

## **Canllawiau Cynllunio Atodol**

Mae nodiadau canllaw, briffiau a chanllawiau atodol eraill yn gweithredu fel cerrig camu rhwng polisiau'r Parc Cenedlaethol a cheisiadau cynllunio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu mwy o fanylion ar bolisiau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae CCA APCAP yn cynnwys pynciau megis tai fforddiadwy, rhwymedigaethau cynllunio a safonau parcio.

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>

## **Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau ar Ddatblygiadau Un Blaned**

Amcan y ddogfen ganllaw hon gan Lywodraeth Cymru, a gynhyrchwyd yn 2012, yw cynorthwyo ymgeiswyr cynllunio, y rhai sy'n eu cyngori ac awdurdodau cynllunio lleol i ddeall gofynion un blaned fel y'u hamlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010). Mae i'r canllaw dri prif bwriad: i esbonio'r hyn a olygir wrth ddatblygiadau un blaned; i osod sut gellir cyfiawnhau ac asesu cynigion datblygu; ac i roi cyngor ar ba dystiolaeth sy'n hanfodol er mwyn cefnogi ceisiadau cynllunio.

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/oneplanet/?lang=en>

## 6. Manylion cyswilt Tîm Cynllunio Polisi APCAP

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr uchod, cysylltwch â thîm Cynlluniau Datblygu'r Awdurdod:

Cyfeiriad: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Parc Llanion  
Doc Penfro  
Sir Benfro  
SA72 6DY

Ffôn: 01646 624800

Ebost: [devplans@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:devplans@pembrokeshirecoast.org.uk)

### **Swyddogion Allweddol:**

Martina Dunne, Pennaeth Cyfarwyddo'r Parc  
Sarah Middleton, Swyddog Cynllunio  
Richard James, Swyddog Cynllunio